# City & Guilds Diploma mewn Rheolaeth Lletygarwch Lefel 4



## Yn gryno

Mae cymhwyster Diploma Lefel 4 City & Guilds mewn Rheolaeth Lletygarwch ar gyfer y rheiny sy'n gweithio fel rheolwr lletygarwch, pennaeth adran, rheolwr cegin, prif gogydd, cogydd gweithredol, rheolwr swyddfa blaen, rheolwr blaen ty, rheolwr y dderbynfa, rheolwr llety, rheolwr cadw trefn, gweithiwr cadw trefn gweithredol, rheolwr bwyd a diod, rheolwr y bwyty, rheolwr bar yn y sector lletygarwch ac arlwyaeth, neu sy'n dymuno gweithio yn un o'r swyddi hyn.

Mae'n eich caniatáu chi i ddysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a/neu ddatblygu gyrfa yn y sector lletygarwch ac arlwyo.

## Dyma'r cwrs i chi os...

...ydych yn gweithio yn y sector lletygarwch ar hyn o bryd

...rydych eisoes mewn swydd rheoli neu'n dyheu am ddyrchafiad i reolaeth

...rydych yn gallu gweithio'n annibynnol

...mae gennych lefel dda o lythrennedd a rhifedd

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Gellir cyflawni'r cymhwyster mewn cyfnod o ddwy flynedd a bydd eich aseswr yn eich helpu chi i benderfynu pa unedau dewisol y dylech eu dewis sydd y mwyaf addas i chi.

Mae gan y cymhwyster nifer o lwybrau yn seiliedig ar eich swydd ac mae'r unedau yr ymdrinnir â nhw yn cynnwys:

Unedau gorfodol yn cynnwys:

Rheoli perfformiad timau ac unigolion
Gweithio fel rhan o dîm rheolaeth lletygarwch i gyflawni nodau strategol
Rheoli cydymffurfiad â gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol mewn lletygarwch
Rheoli eich datblygiad proffesiynol o fewn sefydliad

Mae unedau dewisol mewn swyddi megis:

Goruchwyliaeth Lletygarwch
Rheoli Cegin
Derbyniad Blaen Ty
Gwasanaeth Bwyd a Diod
Rheoli Llety
Rheolaeth Lletygarwch Cyffredinol

Trafodir mwy o fanylion am eich dewis o unedau gyda'ch aseswr. Bydd yr unedau y cytunir arnynt yn bodloni rol eich swydd a chyfleoedd asesu.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae'n rhaid ichi fod yn gweithio yn y diwydiant Lletygarwch ac Arlwyo.

Bydd gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth mewn portffolio a'i reoli'n briodol ac yn unol â gofynion y corff dyfarnu.

Bydd aseswr o'r coleg yn ymweld â chi i gynnal asesiadau ac mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch aseswr i drefnu dyddiadau ac amseroedd addas

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn dilyn y cwrs hwn, efallai y byddwch eisiau dilyn rhaglen radd mewn Lletygarwch ac Arlwyo.